# Hyrwyddo'r defnydd o iaith arwyddion Makaton ym mhob ysgol yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 19 Tachwedd 2019
Petitions Committee | 19 November 2019

## Briff Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-909

Teitl y ddeiseb: Hyrwyddo'r defnydd o iaith arwyddion Makaton ym mhob ysgol yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried defnyddio iaith arwyddion Makaton ym mhob ysgol yng Nghymru. Rydw i'n chwaer 13 mlwydd oed i fachgen bach sydd â Syndrom Down, sy'n defnyddio iaith Makaton yn bennaf. Rwyf wedi dysgu iaith arwyddion Makaton er mwyn cyfathrebu â fy mrawd, ac oherwydd hyn, penderfynais sefydlu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i helpu pobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg i ddysgu. Roedd yn syndod i mi weld cymaint o alw gan bobl sydd am ddysgu Makaton er mwyn cyfathrebu â ffrindiau ac aelodau teulu sydd ag anawsterau dysgu. Credaf y dylai gael ei gynnwys ym mhob ysgol yng Nghymru ochr yn ochr ag addysgu bob dydd er mwyn caniatáu i bob plentyn ddysgu i gyfathrebu drwy'r dull hwn.

Rwy'n angerddol dros gyflawni hyn ac yn credu ei fod yn hawl sylfaenol i bob plentyn yng Nghymru ddysgu Makaton er mwyn chwalu rhwystrau a chamsyniadau, a sicrhau cynhwysiant gwirioneddol yng Nghymru. Mae llawer o ymchwil wedi cael ei wneud i brofi pa mor effeithiol yw defnyddio symbolau ac arwyddion er mwyn cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd.
Mae canfyddiadau ymchwil presennol yn cefnogi'r defnydd o iaith arwyddion gydag oedolion a phlant sydd ag anawsterau deallusol a chyfathrebu. Mae astudiaeth hefyd sy'n archwilio'r graddau y mae dysgu iaith arwyddion ochr yn ochr ag iaith dramor yn ystod gwersi ieithoedd tramor modern yn helpu i gefnogi'r eirfa ar lafar sy'n aros yn y cof. Mae llawer o bapurau ymchwil wedi'u cyhoeddi sy'n cefnogi defnyddio Makaton.

### Cefndir

Rhaglen datblygu iaith yw Makaton sy'n defnyddio symbolau, arwyddion a lleferydd i alluogi pobl i gyfathrebu. Mae'r Elusen Makaton yn nodi bod Makaton yn cefnogi datblygiad sgiliau

cyfathrebu hanfodol fel sylw a gwrando, deall, cof, dwyn i gof a threfnu iaith a mynegiant. Wrth ddefnyddio Makaton, defnyddir arwyddion, ochr yn ochr â lleferydd, yn nhrefn geiriau llafar. Mae Elusen Makaton yn nodi bod dros 100,000 o blant ac oedolion yn y DU yn defnyddio symbolau ac arwyddion Makaton, naill ai fel eu prif ddull cyfathrebu neu fel ffordd i gefnogi lleferydd. Yn wahanol i Iaith Arwyddion Prydain, nid yw'n iaith gydnabyddedig.

## Polisi Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC:

- Bydd cwricwlwm newydd Cymru yn caniatáu i ysgolion gynnwys dysgu Makaton. Gan nad yw'n iaith gydnabyddedig, byddai'n rhaid i hyn fod ochr yn ochr â Chymraeg, Saesneg ac iaith ryngwladol erbyn diwedd yr ysgol gynradd. Yn y cwricwlwm presennol, gellir ei 'archwilio' drwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol;
- Darperir cyllid Llywodraeth Cymru i'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol sy'n penderfynu ar y ffordd orau i gefnogi ysgolion yn eu hardaloedd. Gall hyn gynnwys cefnogaeth i Makaton lle bo angen;
- Byddai ysgol neu awdurdod lleol yn gyfrifol am drefnu cymorth cyfathrebu pe bai dysgwr yn gofyn am hyn fel rhan o'i ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig;
- Bydd 'cyfran sylweddol' o'r buddsoddiad o £20m ar gyfer y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei defnyddio i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg.

### Cwricwlwm newydd

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yw un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad sy'n ffurfio'r cwricwlwm newydd a fydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022 fesul cam. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddeunyddiau cwricwlwm drafft ym mis Ebrill 2019. Daeth y cyfnod adborth i ben ym mis Gorffennaf 2019. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r **trefniadau cwricwlwm ac asesu terfynol ym mis Ionawr 2020**.

Mae canllawiau statudol Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn nodi y bydd y Maes hwnnw 'yn galluogi pob dysgwr i feithrin gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol yn ogystal â llenyddiaeth.'

Mae'r canllawiau statudol hefyd yn nodi hynny

> Mae sgiliau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn allweddol o ran galluogi dysgwyr i fynegi eu hunain yn effeithiol, ac mae dysgwyr sy'n gallu cyfleu eu teimladau a dehongli teimladau pobl eraill mewn gwell sefyllfa i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ac felly i ddod yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, sy'n gallu cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, boed ar y we ac oddi arni.

Mae pedwar maes sy'n cael eu nodi fel 'yr hyn sy'n bwysig' yn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:

- Mae dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn ein paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
- Mae dysgwyr sy'n gwrando ac yn darllen yn effeithiol yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- Mae dysgwyr sy'n siarad ac yn ysgrifennu'n effeithiol yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Er nad yw Makaton yn cael ei grybwyll yn benodol yn y canllawiau statudol, mae'r Gweinidog Addysg yn dweud, oherwydd ethos y cwricwlwm newydd, y byddai ysgolion yn rhydd i'w addysgu, yn ogystal â Chymraeg, Saesneg ac iaith ryngwladol.

## Deiseb Tŷ'r Cyffredin

Ar 1 Mawrth 2019, ymatebodd Llywodraeth y DU i ddeiseb a oedd yn gofyn am gael gwneud hi'n orfodol i ysgolion ddysgu arwyddo sylfaenol, fel Makaton. Awgrymodd y Deisebydd y gallai hyn gael ei gyflawni drwy ddarparu pecyn adnoddau ar-lein/papur o eiriau gorfodol i ysgolion ac, os oedd angen, gallai person arweiniol o bob ysgol fynd ar sesiwn hyfforddi a'i gyflwyno i weddill y staff. Ymatebodd y Llywodraeth gan ddweud, er bod Makaton yn offeryn cyfathrebu gwerthfawr i rai disgyblion ac ysgolion, nid oes gan Lywodraeth y DU gynlluniau i newid y cwricwlwm cenedlaethol. Dywedwyd hefyd fod gan ysgolion hyblygrwydd eisoes i ddewis ei ddysgu pe bydden nhw'n dymuno.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.